// CYNGOR CYMUNED BETHESDA
BETHESDA COMMUNITY COUNCIL
*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 25 Ebrill 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Neb yn bresennol

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Linda Brown, Mary Jones, Ann Williams, Dyfrig Jones a Susan Davies.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
Y Gofeb – wedi derbyn cwynion am gyflwr y safle. Pendefynwyd holi ein Swyddog Cynnal i'w glirio.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019 yn ddarostyngedig i ychwanegu y Cyngr. Pearl Evans a Susan Davies yn bresennol.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Offer cae chwarae Pantdreiniog–** Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc i gyfarfod wythnos nesaf i drafod ymhellach.
**5.2 Baneri –** sydd wedi eu gosod ar y ffens yn Brynbella. Y Clerc i gwyno unwaith eto.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn a diolch am yr adroddiad.

**7. Penodi Archwilydd Mewnol**
Penderfynwyd penodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd fel Archwilydd ar gyfer y flwyddyn 2018-19.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Pwyllgor Cyllid – pawb wedi derbyn copi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Ebrill 2019 a hefyd copi o'r cyfrifon. Y lwfans blynyddol o £150 sydd ar gael i gynghorwyr, i'w dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr aelodau i lenwi ffurflen os yn dymuno 'optio allan' o dderbyn y taliad. (y taliad yn drethadwy ac yn cael ei dalu drwy TWE).
Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Toriadau gwair ychwanegol**
Y Cyngor yn fodlon ariannu dau doriad ychwanegol yn ystod y tymor tyfu.

**10. Maes Parcio Gerlan**
Dim diweddariad, dal i ddisgwyl dyluniadau gan cwmni Cadarn.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2019'
**11.1** E-bost gan Sefydliad Materion Cymreig ynglŷn a gwefan 'Deall Lleoedd Cymru' – angen ymateb gyda disgrifiad o'r pentref os am fod ar y wefan. Penderfynwyd anfon y wybodaeth at J. Elwyn Hughes i ofyn wrtho ddraftio rhywbeth, os yn bosib.
**11.2** E-bost gan Alun Wyn Jones, Cyngor Gwynedd – sefydlu cynllun cydweithio am 2019 ar gyfer caeau chwarae. Copi drafft o 'Femorandwm o ddealltwriaeth' ynglŷn a gwneud y gwaith. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon gyda'r gytundeb.
**11.3** E-bost gan Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd – arolwg Cynghorau Tref a Chymuned. Y Clerc i gwblhau'r arolwg ar lein.
**11.4** E-bost gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd – cyfyngiadau parcio arfaethedig. Y Cyngor yn cytuno gyda'r cyfyngiadau.
**11.5** E-bost gan Bro 360 – gweithdy cychwynnol i'w gynnal yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen – 27 Ebrill 15.30 – 17.00. Nodwyd y dyddiad.
**11.6** E-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru – angen mwy o wybodaeth yn dilyn ein ymateb i'r adroddiad. Y Clerc i chwilio am y dogfennau ac ymateb i'r e-bost.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C18/1178/13/LL**

| | |
|---|---|
| Llangoed, Nant Graen, Braichmelyn | Dymchwel y lolfa bresennol a chodi estyniad newydd yn ei le<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |

**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |

**C19/0140/13/LL**

| | |
|---|---|
| 3 Ciltrefnus, Gerlan | Estyniad unllawr ar y talcen<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |

**C19/0008/13/LL**

| | |
|---|---|
| Church of Saint Pius X and Blessed Richard Gwyn, Bethesda | Newid defnydd cyn Eglwys Gatholig yn uned fechan ar gyfer diwydiant ysgafn ar gyfer cynhyrchu caws arbenigol gyda llaw<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C19/0348/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Lon Sarnau, Ffordd yr Orsaf, Bethesda | Addasu modurdy i uned wyliau<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ebrill) | £284.77 |
| CThEM (Ebrill) | £71.00 |
| Siop Ogwen –gwobr ffenestr Gŵyl Dewi | £75.00 |
| Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol | £15063.39 |
| Scottish Power – goleuadau Nadolig | £24.42 |
| Scottish Power – Trydan- Gorffwysfan | £120.88 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50.00 |
| Un Llais Cymru – aelodaeth blynyddol | £702.00 |
| Clwb pel-droed Bethesda | £500.00 |